Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bae Caswell, Gŵyr – Cyfleuster Lleoedd Newid



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Llwyddodd Cyngor Abertawe i sicrhau cymorth TAIS Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud Bae Caswell yn gyrchfan wirioneddol hygyrch i ymwelwyr ag anableddau difrifol.

Mae ymchwil yn dangos bod tua 250,000 o ymwelwyr anabl nad oes ganddynt fawr o ddewis o lefydd i fynd iddyn nhw na gweithgareddau i'w mwynhau. Roedd gan y prosiect hwn y potensial i newid bywydau miloedd o ymwelwyr ag anableddau difrifol a'u gofalwyr, denu llawer mwy o bobl i ardal Bae Abertawe a gwella enw da Gŵyr fel cyrchfan hygyrch.

Y nod oedd gosod Cyfleusterau Newid modiwlaidd newydd o ansawdd uchel ym maes parcio Bae Caswell a buddsoddi mewn offer traeth arbenigol er mwyn i ymwelwyr ag anableddau difrifol allu mynd i'r dŵr a'i fwynhau. Prynwyd uned storio hefyd i storio'r offer newydd yn ddiogel.

Mae'r Cyfleusterau Newid yn cynnwys uned hunangynhwysol, sydd â theclyn codi, cawod a gwely newid cewynnau. Dyma'r Cyfleuster Newid cyntaf ym Mhenrhyn Gŵyr a bydd yn ei gwneud yn bosib i filoedd o bobl ag anableddau difrifol fwynhau'r traeth a'r môr ym Mae Caswell, un o draethau baner las mwyaf poblogaidd Gŵyr.

Bydd dwy Mobi-Chair ar gael, i fynd ar y traeth yn ogystal ag yn y dŵr. Maen nhw ar gael am ddim ond rhaid eu harchebu ymlaen llaw gyda Chyngor Abertawe.

Roedd Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn y lansiad swyddogol ym mis Medi 2019 yn ogystal ag aelodau o'r wasg. Cafwyd eitem arno ar newyddion ITV.

Sut cafodd y nodau hyn eu cyflawni?
Yr allwedd i lwyddiant y prosiect oedd y cydweithio â Croeso Cymru, Adrannau eraill y Cyngor (Eiddo Corfforaethol / Gwasanaethau Adeiladu, Cynllunio, Meysydd Parcio, Glanhau ac ati), partneriaid cyflenwi (iHUS) a defnyddwyr (Surfability, grwpiau anabledd ac ati).

**Pwy oedd yn rhan ohono?**

Yr arweinydd o ran cwblhau'r prosiect, ar y cyd ag iHUS Projects Ltd, un o arbenigwyr mwyaf blaenllaw'r DU ar wneud addasiadau i'r anabl, oedd Cyngor Abertawe.

Buom hefyd yn gweithio'n agos gydag aelodau perthnasol y

Ward, Surfability UK, Bramwood Accessible Holiday Home a grwpiau anabledd Lleol.

Surfability UK yw'r unig ysgol syrffio o'i bath yn y DU sy'n darparu profiad unigryw i bobl ag anableddau neu anawsterau dysgu difrifol. Maent wedi cael sylw ar Plant mewn Angen BBC a derbyniodd y sylfaenydd Ben Clifford Wobr Partner Cymunedol Pride of Britain yn 2019. Cartref Gwyliau Hygyrch Bramwood yw'r unig gartref gwyliau cwbl hygyrch ym Mhenrhyn Gŵyr a gall fod yn llawn flwyddyn ymlaen llaw. Derbyniodd gefnogaeth lawn gan flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Abertawe, Cynllun Rheoli Traethau (BMP) a Chynllun Rheoli Cyrchfannau (DMP) 2017-2020.

Cafodd cefnogaeth frwd hefyd gan grwpiau anabledd lleol, Surfability UK, Cadwch Gymru'n Daclus, RNLI a busnesau lleol o'r cychwyn cyntaf.

**Sut cafodd y prosiect ei ariannu?**

Cyfanswm costau'r prosiect: £85K
TAIS: £68K
Arian cyfatebol gan y Cyngor: £17K

**Ble aethoch chi am help a chyngor?**

Sbardun y syniad ar gyfer y prosiect i ddechrau oedd trafodaeth â defnyddwyr, pan ddaeth yn amlwg y gallai Cyfleuster Newid ym Mhenrhyn Gŵyr wneud gwahaniaeth enfawr i filoedd o ymwelwyr anabl a denu pobl newydd i'r ardal.

Ar ôl i ni gadarnhau bod galw am brosiect o'r fath, holwyd tîm ariannu Croeso Cymru ac adrannau gwahanol yn y Cyngor am gyngor ar sut i sicrhau bod y prosiect yn cael ein gwblhau o fewn y gyllideb a'r amserlen. Roedd iHUS yn hynod o barod eu cymwynas wrth weithio i fodloni'n gofynion a datrys mân broblemau o ran darparu'r uned fodiwlaidd.

Cafwyd rhagor o gymorth a chyngor gan gydweithwyr yng Ngwasanaethau Adeiladu'r Cyngor gydol y broses o roi'r prosiect ar waith.

**Beth yw'ch camp fwyaf hyd yma?**

Y gamp fwyaf heb os yw'r gwahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud i filoedd o drigolion ac ymwelwyr ag anableddau difrifol, sydd bellach yn gallu mynd i'r môr ym Mae Caswell a chael hwyl ynddo heb golli urddas wrth newid ac ymolch, diolch i gyfleuster sy'n ateb y gofyn ac yn diwallu anghenion cymhleth.

**A'r her fwyaf?**

Cymhlethdod darparu prosiect cyfalaf yn un o'n cyrchfannau mwyaf poblogaidd ar adeg o bwysau ariannol eithafol ar wasanaethau'r Cyngor a cheisio yr un pryd bodloni anghenion y carfanau niferus oedd yn gysylltiedig â'r broses.

Gan mai dyma'r Cyfleuster Newid cyntaf ym Mhenrhyn Gŵyr, enynnodd y prosiect ddiddordeb trigolion, ymwelwyr a'r wasg – gan godi disgwyliadau ac ychwanegu at y pwysau arnom i lwyddo.

**Unrhyw gynghorion i'r rhai sy am sefydlu prosiect tebyg?**

Roedd ymgynghori helaeth a chydweithio clos â phob carfan oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys y defnyddwyr, yn hanfodol i'w lwyddiant.

**Beth sydd nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Ar sail llwyddiant y prosiect a chan ddibynnu ar y sefyllfa ariannol yn y dyfodol, rydym wrthi'n dechrau trafod darparu Cyfleuster Newid arall ym Mhenrhyn Gŵyr.

